Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Datganiad newyddion

28 Mawrth 2008

Angen gwelliant sylweddol ar addysg pobl ifanc mewn cartrefi plant

Mae angen gwelliant sylweddol ar bartneriaethau gwaith rhwng awdurdodau lleol a darparwyr sy'n addysgu dysgwyr sy'n byw mewn cartrefi plant, dywed adroddiad a gyhoeddir heddiw gan Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Dywed yr adroddiad y dylai awdurdodau lleol chwarae rôl fwy cadarnhaol fel rhieni corfforaethol i sicrhau bod pob person ifanc yn cael yr addysg y mae ganddynt hawl iddi.

"Mae plant y gofelir amdanynt yng Nghymru yn gyffredinol yn gwneud yn wael yn eu haddysg. Mae ffigurau, sydd ar gael hyd at 2005 yn unig, yn dangos bod 58% o blant y gofelir amdanynt wedi methu ennill un TGAU neu gymhwyster cyfatebol. Rhaid monitro cynnydd disgyblion yn well a chydnabod a dathlu eu hymdrechion yn fwy clir os ydynt am symbylu ac ymgysylltu'r bobl ifanc hyn yn llwyddiannus", meddai Dr Bill Maxwell, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

Canfu arolygwyr bod addysg ar gyfer pobl ifanc sy'n byw mewn cartrefi plant yn gymhleth oherwydd amrywiaeth y ddarpariaeth. Mae llawer o ddysgwyr naill ai'n mynychu ysgol leol a gynhelir, ysgol annibynnol gofrestredig, neu uned cyfeirio disgyblion, tra bod eraill yn cael cyfuniad o wersi gartref, addysg ran-amser yn seiliedig ar weithgareddau awyr agored, neu hyd yn oed mewn rhai achosion, ni chânt addysg o gwbl.

Ledled Cymru, mae nifer o gartrefi bach preifat ar gyfer plant o oedran ysgol, yn darparu addysg ar gyfer un neu fwy o ddisgyblion a ariennir yn gyhoeddus, sy'n aml â datganiadau o

anghenion addysgol arbennig. Ni chaiff llawer o'r disgyblion hyn eu haddysgu mewn ysgolion a gynhelir gan eu bod wedi'u gwahardd yn barhaol neu oherwydd bod ganddynt gofnodion o ddiffyg presenoldeb.

Ers 2003 a chyflwyno rheoliadau statudol[1], bu angen i ugain o gartrefi bach preifat ar gyfer plant wneud cais i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i gofrestru eu darpariaeth addysg fel ysgolion annibynnol. Roedd arolygwyr yn bryderus i weld mai dim ond ychydig iawn o awdurdodau gosod sy'n ceisio caniatâd ar gyfer gosod disgyblion sydd â datganiadau o anghenion addysgol arbennig yn yr ysgolion annibynnol bach hyn cyn eu lleoli. O ganlyniad i hyn, gallant gael eu gosod mewn ysgolion nad ydynt efallai'n bodloni eu hanghenion. Mae'r adroddiad yn argymell bod naill ai'r awdurdod lleol neu'r awdurdod gosod yn cynnal cysylltiad gwell â'r ysgolion cofrestredig annibynnol hyn er mwyn monitro cynnydd disgyblion a gwella gweithdrefnau ar gyfer darparu cofnodion amserol a chyfredol iddynt.

Mae'r adroddiad hefyd yn amlygu cryfderau a gwendidau mewn darpariaeth gwricwlaidd. Er nad yw unrhyw gartrefi preifat i blant sydd â darpariaeth addysg newydd ei gofrestru yng Nghymru yn cynnig yr ystod lawn o bynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol, maent yn gyffredinol yn cynnwys rhaglen gymysg sy'n cynnwys medrau sylfaenol mewn llythrennedd a rhifedd ynghyd â chyrsiau priodol mewn medrau bywyd. Mae gweithgarwch corfforol yn tueddu i fod yn nodwedd gref yn y rhan fwyaf o'r ysgolion hyn, ond mae gweithgarwch creadigol yn tueddu i fod yn wan, gyda rhai disgyblion yn cael gwersi celf ond prin iawn yw'r ddarpariaeth ar gyfer cerddoriaeth.

Ymwelodd arolygwyd â nifer fach o gartrefi preifat i blant sy'n cynnig addysg ond sydd heb gofrestru'n ysgolion gan mai addysg ran-amser a gynigir ganddynt. Mae'r adroddiad yn argymell bod y sefydliadau hyn yn sicrhau bod yr holl bobl ifanc yn eu gofal yn cael eu hawl lawn i addysg drwy ysgol a gynhelir, gwersi gartref neu ysgol annibynnol sy'n cydymffurfio â rheoliadau cofrestru[2].

Daw'r adroddiad i'r casgliad bod angen i Estyn ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) barhau i weithio gyda'i gilydd i wella canlyniadau

[1] Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003
[2] Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003

cymdeithasol ac addysgol i bobl ifanc mewn cartrefi plant, gan ddarparu gwybodaeth i Lywodraeth Cynulliad Cymru ynghylch a yw'r ddarpariaeth yn bodloni gofynion rheoleiddiol.

Mewn cartrefi preifat i blant sydd â darpariaeth addysg newydd ei chofrestru, er bod llawer o ddisgyblion yn gweithio ar lefelau is na'u hoedran nid oes diffyg gallu ganddynt o reidrwydd. Mae llawer o ddysgwyr wedi colli llawer o addysg gan eu bod wedi symud lleoliadau, wedi cael eu gwahardd neu drwy beidio â bod yn bresennol. Mae Estyn yn argymell bod yr ysgolion hyn yn asesu disgyblion newydd, yn monitro'u cynnydd ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i gynllunio'n briodol a bodloni anghenion dysgu disgyblion yn well.

DIWEDD

Nodiadau i Olygyddion:

- Mae Estyn, swyddfa Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, yn darparu gwasanaeth arolygu a chyngor o ansawdd uchel.

- Comisiynwyd adroddiad Estyn, 'Addysg mewn cartrefi plant' gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

- Mae sail y dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad hwn yn cynnwys:

    - Holiaduron gan benaethiaid a rheolwyr gofal preswyl cartrefi plant;
    - Ymateb i holiadur byr gan sampl o ddysgwyr;
    - Cyfarfodydd â staff mewn ysgolion a chartrefi plant ledled Cymru;
    - Trafodaethau ag ysgolion a gynhelir a swyddogion awdurdodau lleol;
    - Archwilio polisïau a chynlluniau gwaith a ddarparwyd gan ysgolion;
    - Adroddiadau a ddarparwyd gan AGGCC;
    - Nodiadau Estyn o ymweliadau ag ysgolion annibynnol newydd; ac
    - Astudiaethau a gynhaliwyd yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.

- Mae Estyn yn arolygu ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion arbennig, unedau cyfeirio disgyblion, ysgolion annibynnol, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau cymorth ieuenctid, y system cyfiawnder ieuenctid, awdurdodau addysg lleol (AALlau), addysg a hyfforddiant athrawon, dysgu yn y gwaith, cwmnïau Gyrfa Cymru, ac elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant rhaglenni'r Ganolfan Byd Gwaith.

- Mae copïau llawn o adroddiadau arolygu ar gael ar wefan Estyn yn www.estyn.gov.uk

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:
Gina Carrington
Y Tîm Cyfathrebu, y Cyfryngau a Marchnata
Estyn

cyfathrebu@estyn.gsi.gov.uk
02920 446464